

Minutes of the Monthly Meeting of Mumbles Community Council held on 13 February 2024 at 6.30pm (Hybrid Meeting at the Ostreme Centre and via Teams)

Members Present: Cllrs Martin O'Neill (Chair), Rob Marshall, Richard Jarvis, Ian Scott, Carrie Townsend Jones, Emilia Cox, Angela O'Connor, Emilia Cox, Michael Parkin, Hannah Hunter and Helen Nelson

Officers Present: Kerry Grabham – Clerk, and Diane Athernought – Customer Services Officer

C02402-01 Apologies for Absence

Cllrs Will Thomas (Vice-Chair), Tim Zhou, Rebecca Fogarty, Pamela Erasmus, Francesca O'Brien, Sara Keeton and Rhian Evans.

C02402-02 Declarations of Interest

None

C02401-03 Public Participation

Mr Ray Jones a local litter collecting co-ordinator was in attendance and at the invitation of The Chair, Cllr O'Neill, he outlined how together with six or seven other volunteers he collected litter in the Mumbles Area. Mr Jones explained that he and the other volunteers had their own litter picking equipment and worked separately to the events organised by Lydia on behalf of MCC. He explained that certain streets including Queens Road and Chapel Street appeared to be disproportionately impacted by litter although litter within Mumbles as a whole had improved over the past 25 years. He invited suggestions on how to progress litter picking in Mumbles.

All councillors were enthusiastic about the aims of reducing litter and a discussion including how best to update local residents ensued.

The Chair, Cllr O'Neill desired that his formal thanks for the dedication shown by Ray and the other volunteers be noted. Following the discussion Mr Jones left the meeting at 6.41pm

ACTION: The issues on how best to take litter picking forward, including updating local residents through a newsletter or other means to be discussed at the Environmental Committee and ideas to be brought back to Full Council for updating purposes.

C02402-04 To Approve the Minutes of the Full Council Meeting held on 09th January 2024.

RESOLVED to approve the minutes of the meeting held on 9th January 2024 as a true record.

C02402-05 Clerk's Report

The Clerk read out her report which had previously been circulated to committee members. The report centred on the suggestion of moving as a council from chairs being questioned at Full Council to providing reports prior to Full Council Meetings. There would be a number of benefits arising from this process including greater preparedness for councillors resulting in streamlined discussions and pertinent questioning of issues arising from the report. This streamlined process would improve accountability, decision-making and transparency. Additional benefits would include the professional development of councillors including their report writing and presentation skills.

Following The Clerk providing her report there was a general discussion on the merits of moving to a report-based system. Councillors were enthusiastic about moving to a report based system and were reassured that The Clerk would be providing support to the respective chairs initially, including the provision of template reports.

RESOLVED to note the Clerk's Report and adopt a new report-based system for committee chairs.

C02402-06 Chair's Report

The Chair, Cllr O'Neill read out his report which focused on the behaviour of councillors, in particular their rude conduct. Cllr O'Neill detailed how MCC had progressed, taking on new responsibilities and that such behaviour whether to the public, officers or other councillors is unacceptable. Councillors must abide by their Code of Conduct and whilst robust debates are to be expected, respect must be maintained, and rudeness must not be mistaken for assertiveness.

No questions were asked of the chair following the reading of his report.

RESOLVED to note the report.

C02402-07 Waste In Mumbles

The Clerk outlined how she had been in liaison with Mr Ray Jones, who had already provided an input to Full Council at agenda item [C02401-03](#). The Clerk stated that discussions relating to Waste in Mumbles were ongoing and would be further discussed at The Environmental Committee Meeting.

No questions were asked.

RESOLVED to further discuss Waste in Mumbles within The Environmental Committee.

C02402-08**Financial Report for January**

Financial reports prepared by RFO Paul Beynon had previously been provided to councillors, the Clerk in the absence of the RFO offered to take questions in relation to these reports. There were no questions.

RESOLVED to retrospectively approve payments made by the RFO for January 2024.

RESOLVED to approve the budget monitoring report to 31st December 2023

C02402-09**To consider Draft Vexatious Request Policy.**

The Clerk outlined that the draft vexatious request policy is one of number of policies that requires updating. The policy had been circulated to councillors prior to the meeting and relates to circumstances where an individual or company repeatedly complains in a vexatious manner. The Clerk answered a number of questions from councillors and confirmed that whilst One Voice Wales did not possess such a policy, she had been advised to seek guidance from other community councils. Other potential sources of information included the Information Commissioners. Other areas of concern related to the appointment of an appeals panel being made up of MCC Councillors where vexatious claims were being challenged. However, it was accepted by councillors that opportunities to appoint suitable independent candidates from outside of the councillor 'pool' may be limited.

RESOLVED to approve the draft vexatious request policy with a view to conducting a review after a twelve-month period. This would provide an opportunity for One Voice Wales to consider the draft policy and for The Clerk to seek guidance from other community councils and statutory bodies including the Information Commissioners.

C02402-10**To consider Draft SLA Agreement for Mumbles Traders Grant Agreement.**

The Clerk outlined the draft agreement which had been circulated to councillors prior to the meeting and offered to answer questions from councillors. The committee agreed that the SLA between Mumbles Traders and MCC required updating and monitoring. The Clerk outlined how future grants will be tracked and that Diane Athernought, the Customer Services Officer will be proactive in checking the progress of grants as part of her new role.

RESOLVED to approve the draft SLA Agreement for Mumbles Traders Grant Agreement.

C02402-11**To agree MublesFest date 2024**

Cllr. Rob Marshall, the chair of the Culture, Tourism, and Communications Committee proposed the date of 15th June 2024 for MublesFest.

RESOLVED to agree the date of 15th June 2024 for MublesFest.

C02402-12**To agree delegated powers for Culture, Tourism & Communications for Mublesfest decisions.**

A discussion took place between councillors on the merits of delegating decision making and in particular approving costs. It was noted that a number of costings (under £1,000) are already devolved to the committee in question and to The Clerk/RFO. Concerns by councillors that opportunities to lose potential bookings through delays in seeking Full Council approval needed to be balanced against procedural concerns. The concerns of councillors were therefore incorporated into the resolution detailed below. It was also noted by councillors that the efficient running of the committee would be constrained in the event of approval being required for decisions at Full Council. In relation to the choice of acts, all councillors, officers, and the public as a whole should forward proposed acts to a committee member.

AGREED: Whilst making a booking too far ahead may result in a 'clash' with another event such as The Wales Airshow, the consensus of opinion amongst councillors was that MublesFest should be booked earlier to provide the opportunity to book a greater variety of acts.

RESOLVED to approve delegated powers for Culture, Tourism & Communications for Mublesfest decisions subject to the following criteria: -

- At least one Welsh-speaking act to contribute at MublesFest
- The 'headline' act to be paid a maximum of £3,500 (to include travel & accommodation)
- All councillors to be provided with the opportunity of assessing acts at a future Culture, Tourism & Communications Committee Meeting(s).

C02402-13**To consider recommendations from Community & Social Committee**

The Clerk outlined the following recommendation from the Community & Social Committee.

Recommended that following the Community & Social Committee held on 17th January 2024, Councillors consider the following recommendation:-

That an expression of interest form should be submitted to SCC to facilitate the transfer of assets in relation to the £5,000 approved for Mubles Bowls Club.

RESOLVED to agree to the above recommendation.

C02402-14 To consider recommendations from Culture, Tourism & Communications Committee

The Clerk outlined the following recommendations from the Culture, Tourism & Communications Committee:-

Recommended that following the Culture, Tourism & Communications Committee held on 24th January 2024, Councillors consider the following recommendation:-

That Full Council should vire £1,400 from Warm Hubs to Coffee with Friends

RESOLVED to agree to the above recommendation.

Recommended that whilst it was originally agreed by the Culture, Tourism & Communications Committee on 24th January 2024, that a Welsh Event should take place at Ostreme on 1st March 2024, that this is no longer feasible due to volunteers not being available on that day. Instead, a Welsh Event for St. David's Day is to be incorporated into the Coffee With Friends held the day beforehand, on 29th February 2024.

RESOLVED to agree to the above recommendation.

C02402-15 Questions for the Chair of the Culture, Tourism, and Communications Committee.

In answer to a question concerning a dedicated event for St David's Day, Cllr Marshall outlined a combination of factors including the unavailability of volunteers, budget restraints and school commitments.

AGREED to discuss options for 2025 St David's Day at a dedicated 'future events' meeting in April 2024.

C02402-16 Questions for the Chair of the Environmental Committee

In answer to questions, Cllr Nelson outlined the following: -

- The inauguration of MCC's Gardener's Question Time will take place at Newton Hall on Tuesday 26th March 2024 between 5.30 and 7.30pm with space for sixty members of the public. At the end of this event the launch of Mumbles Buzz in Bloom will be made.
- The next Green Heroes will take place on 22nd February 2024 between 5.30 and 7.30pm at The Hub, Underhill Park.

C02402-17 Questions for the Chair of the Finance & Compliance Committee

No questions were asked.

C02402-18 Questions for the Chair of the Community & Social Development Committee

No questions were asked.

Meeting concluded at 8.04pm

Next meeting 13th March 2024

Cofnodion Cyfarfod Misol

Cyngor Cymuned y Mwmbwls

a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2024 am 6.30pm

(cyfarfod hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Teams)

Aelodau yn bresennol: Y cynghorwyr Martin O'Neill (cadeirydd), Rob Marshall, Richard Jarvis, Ian Scott, Carrie Townsend Jones, Emilia Cox, Angela O'Connor, Michael Parkin, Hannah Hunter a Helen Nelson

Swyddogion yn bresennol: Kerry Grabham – Clerc, a Diane Athernought – Swyddog Gwasanaethau Cwsmer

C02402-01 Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y cynghorwyr Will Thomas (is-gadeirydd), Tim Zhou, Rebecca Fogarty, Pamela Erasmus, Francesca O'Brien, Sara Keeton a Rhian Evans

C02402-02 Datganiadau o fuddiant

Dim

C02401-03 Cyfranogiad y cyhoedd

Roedd Mr Ray Jones, cydlynnydd casglu sbwriel lleol, yn bresennol ac, ar wahoddiad y cadeirydd, y Cynghorydd O'Neill, amlinellodd sut yr oedd, ynghyd â chwech neu saith o wirfoddolwyr eraill, yn casglu sbwriel yn ardal y Mwmbwls. Eglurodd Mr Jones fod ganddo ef a'r gwirfoddolwyr eraill eu hoffer codi sbwriel eu hunain a'u bod yn gweithio ar wahân i'r digwyddiadau a drefnwyd gan Lydia ar ran Cyngor Cymuned y Mwmbwls. Eglurodd ei bod yn ymddangos bod rhai strydoedd, gan gynnwys Heol y Frenhines a Stryd y Capel, yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan sbwriel, er bod sbwriel yn y Mwmbwls yn ei gyfanrwydd wedi gwella dros y 25 mlynedd diwethaf. Gwahoddodd awgrymiadau ar sut i fwrw ymlaen â chasglu sbwriel yn y Mwmbwls.

Roedd yr holl gynghorwyr yn frwd ynghylch amcanion lleihau sbwriel a chafwyd trafodaeth yn cynnwys y ffordd orau o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i drigolion lleol.

Dymunodd y cadeirydd, y Cynghorydd O'Neill, fod ei ddiolch ffurfiol am ymroddiad Ray a'r gwirfoddolwyr eraill yn cael ei nodi. Yn dilyn y drafodaeth, gadawodd Mr Jones y cyfarfod am 6.41pm.

CAM GWEITHREDU: Trafod materion sy'n ymwneud â'r ffordd orau o fwrw ymlaen â chodi sbwriel, gan gynnwys diweddarau trigolion lleol trwy gylchlythyr neu ddulliau eraill, yn y Pwyllgor Amgylcheddol a chyflwyno syniadau'n ôl i'r cyngor llawn i'w ddiweddarau.

C02402-04 Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y cyngor llawn a gynhaliwyd ar 9 Ionawr 2024.

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Ionawr 2024 fel cofnod cywir.

C02402-05 Adroddiad y clerc

Darllenodd y clerc ei hadroddiad, a oedd wedi'i ddsbarthu'n flaenorol i aelodau'r pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar yr awgrym i symud fel cyngor o sefyllfa lle roedd cadeiryddion yn cael eu holi yn y cyngor llawn i sefyllfa lle roedd adroddiadau yn cael eu darparu cyn cyfarfodydd y cyngor llawn. Byddai nifer o fanteision yn deillio o'r broses hon, gan gynnwys mwy o barodrwydd ar gyfer cynghorwyr, gan arwain at drafodaethau symlach a chwestiynau perthnasol ynghylch materion sy'n codi o'r adroddiad. Byddai'r broses symlach hon yn gwella atebolrwydd, y broses o wneud penderfyniadau a thryloywder. Byddai manteision ychwanegol yn cynnwys datblygiad proffesiynol cynghorwyr, gan gynnwys eu sgiliau ysgrifennu adroddiadau a chyflwyno.

Ar ôl i'r clerc gyflwyno ei hadroddiad, cafwyd trafodaeth gyffredinol ar rinweddau symud i system seiliedig ar adroddiadau. Roedd y cynghorwyr yn frwd dros symud i system seiliedig ar adroddiadau ac fe'u sicrhawyd y byddai'r clerc yn darparu cefnogaeth i'r cadeiryddion priodol i ddechrau, gan gynnwys darparu adroddiadau templed.

PENDERFYNWYD nodi adroddiad y clerc a mabwysiadu system newydd yn seiliedig ar adroddiadau ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau.

C02402-06 Adroddiad y cadeirydd

Darllenodd y cadeirydd, y Cynghorydd O'Neill, ei adroddiad, a oedd yn canolbwyntio ar ymddygiad cynghorwyr, yn enwedig eu hymddygiad anghwrtais. Manylodd y Cynghorydd O'Neill sut yr oedd Cyngor Cymuned y Mwmbwls wedi symud ymlaen, gan ysgwyddo cyfrifoldebau newydd, a bod ymddygiad o'r fath, boed i'r cyhoedd, swyddogion neu gynghorwyr eraill, yn annerbyniol. Rhaid i gynghorwyr gadw at eu cod ymddygiad a thra bod dadleuon cadarn i'w disgwyl, rhaid cynnal parch, ac ni ddylid camgymryd anfoesgarwch am bendantrwydd. Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau i'r cadeirydd ar ôl iddo ddarllen ei adroddiad.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

C02402-07 Gwastraff yn y Mwmbwls

Amlinellodd y clerc sut yr oedd hi wedi bod mewn cysylltiad â Mr Ray Jones, a oedd eisoes wedi rhoi mewnbwn i'r cyngor llawn ar eitem [C02401-03](#) ar yr agenda. Dywedodd y clerc bod trafodaethau yn ymwneud â gwastraff yn y Mwmbwls yn parhau ac y byddent yn cael eu trafod ymhellach yng nghyfarfod y Pwyllgor Amgylcheddol. Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

PENDERFYNWYD trafod gwastraff yn y Mwmbwls ymhellach o fewn y Pwyllgor Amgylcheddol.

C02402-08 Adroddiad ariannol ar gyfer mis Ionawr

Roedd adroddiadau ariannol a baratowyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol Paul Beynon eisoes wedi'u darparu i gynghorwyr, ac, yn absenoldeb y swyddog hwn, cynigiodd y clerc gymryd cwestiynau mewn perthynas â'r adroddiadau hyn. Nid oedd unrhyw gwestiynau.

PENDERFYWNYD cymeradwyo taliadau a wnaed gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol ym mis Ionawr 2024 yn ôl-weithredol.

PENDERFYNWYD cymeradwyo adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 31 Rhagfyr 2023.

C02402-09**Ystyried polisi ceisiadau blinderus drafft**

Amlinellodd y clerc fod y polisi ceisiadau blinderus drafft yn un o nifer o bolisiâu sydd angen eu diweddarau. Roedd y polisi wedi'i ddsbarthu i gynghorwyr cyn y cyfarfod ac mae'n ymwneud ag amgylchiadau lle mae unigolyn neu gwmni yn cwyno dro ar ôl tro mewn modd blinderus. Atebodd y clerc nifer o gwestiynau gan gynghorwyr a chadarnhaodd, er nad oedd gan Un Llais Cymru bolisi o'r fath, ei bod wedi cael ei chynghori i geisio arweiniad gan gynghorau cymuned eraill. Roedd ffynonellau gwybodaeth posibl eraill yn cynnwys y Comisiynydd Gwybodaeth. Roedd meysydd pryder eraill yn ymwneud â phenodi panel apêl yn cynnwys cynghorwyr Cyngor Cymuned y Mwmbwls lle'r oedd hawliadau blinderus yn cael eu herio. Fodd bynnag, roedd cynghorwyr yn derbyn y gallai cyfleoedd i benodi ymgeiswyr annibynnol addas o'r tu allan i'r 'gronfa' o gynghorwyr fod yn gyfyngedig.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r polisi ceisiadau blinderus drafft gyda'r bwriad o gynnal adolygiad ar ôl cyfnod o 12 mis. Byddai hyn yn rhoi cyfle i Un Llais Cymru ystyried y polisi drafft ac i'r clerc ofyn am arweiniad gan gynghorau cymuned a chyrrff statudol eraill, gan gynnwys y Comisiynydd Gwybodaeth.

C02402-10 Ystyried cytundeb lefel gwasanaeth drafft ar gyfer cytundeb grant Cymdeithas Masnachwyr y Mwmbwls

Amlinellodd y clerc y cytundeb drafft oedd wedi ei ddsbarthu i gynghorwyr cyn y cyfarfod a chynigiodd ateb cwestiynau gan gynghorwyr. Cytunodd y pwyllgor fod angen diweddarau a monitro'r cytundeb lefel gwasanaeth rhwng Cymdeithas Masnachwyr y Mwmbwls a Chyngor Cymuned y Mwmbwls. Amlinellodd y clerc sut bydd grantiau yn y dyfodol yn cael eu tracio ac y bydd Diane Athernought, y Swyddog Gwasanaethau Cwsmeriaid, yn rhagweithiol wrth wirio cynnydd grantiau fel rhan o'i rôl newydd.

PENDERFYNWYD ystyried y cytundeb lefel gwasanaeth drafft ar gyfer cytundeb grant Cymdeithas Masnachwyr y Mwmbwls.

C02402-11 Cytuno ar ddyddiad ar gyfer Gŵyl y Mwmbwls 2024

Cynigiodd y Cynghorydd Rob Marshall, cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu, y dyddiad o 15 Mehefin 2024 ar gyfer Gŵyl y Mwmbwls.

PENDERFYNWYD cytuno ar 15 Mehefin 2024 fel dyddiad ar gyfer Gŵyl y Mwmbwls.

C02402-12 Cytuno ar bwerau dirprwyedig i'r Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu i wneud penderfyniadau ynghylch Gŵyl y Mwmbwls.

Cafwyd trafodaeth rhwng cynghorwyr ar rinweddau dirprwyo penderfyniadau ac yn arbennig cymeradwyo costau. Nodwyd bod nifer o gostau (o dan £1,000) eisoes wedi'u datganoli i'r pwyllgor dan sylw ac i'r clerc / y Swyddog Ariannol Cyfrifol. Roedd pryderon gan gynghorwyr bod angen cydbwysu'r posibilrwydd o gollu archebion posibl oherwydd oedi wrth geisio cymeradwyaeth y cyngor llawn yn erbyn pryderon gweithdrefnol. Felly, cafodd pryderon y cynghorwyr eu hymgorffori yn y penderfyniad y manylir arno isod. Nodwyd hefyd gan gynghorwyr y byddai rhediad effeithlon y pwyllgor yn cael ei gyfyngu pe bai angen cymeradwyaeth ar gyfer penderfyniadau yn y cyngor llawn. Mewn perthynas â'r dewis o berfformwyr, dylai pob cynghorydd a swyddog, a'r cyhoedd yn gyffredinol, awgrymu perfformwyr arfaethedig i aelod o'r pwyllgor.

CYTUNWYD: Er y gallai archebu'n rhy bell ymlaen arwain at 'wrthdrawiad' â digwyddiad arall, fel Sioe Awyr Cymru, y consensws barn ymhlith cynghorwyr oedd y dylid trefnu Gŵyl y Mwmbwls yn gynharach er mwyn rhoi'r cyfle i archebu amrywiaeth fwy o berfformwyr.

PENDERFYNWYD cymeradwyo pwerau dirprwyedig ar gyfer y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu ar gyfer penderfyniadau Gŵyl y Mwmbwls yn amodol ar y meini prawf canlynol: -

- O leiaf un perfformiad Cymraeg ei iaith i gyfrannu yng Ngŵyl y Mwmbwls
- Uchafswm o £3,500 i'w dalu i'r 'brif berfformiwr' (gan gynnwys teithio a llety)
- Pob cynghorydd i gael y cyfle i asesu perfformwyr mewn cyfarfod(ydd) o'r Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu yn y dyfodol.

C02402-13 Ystyried argymhellion gan y Pwyllgor Datblygu Cymunedol a Chymdeithasol

Amlinellodd y clerc yr argymhelliad canlynol gan y Pwyllgor Cymunedol a Chymdeithasol.

Argymhellir, yn dilyn cyfarfod o'r y Pwyllgor Cymunedol a Chymdeithasol a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2024, y dylai cynghorwyr ystyried yr argymhelliad canlynol:-

Y dylid cyflwyno ffurflen mynegi diddordeb i Gyngor Dinas a Sir Abertawe er mwyn hwyluso'r broses o drosglwyddo asedau mewn perthynas â'r £5,000 a gymeradwywyd ar gyfer Clwb Bowls y Mwmbwls.

PENDERFYNWYD derbyn yr argymhelliad uchod.

C02402-14 Ystyried argymhellion gan y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu

Amlinellodd y clerc yr argymhellion canlynol gan y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu:-

Argymhellir, yn dilyn cyfarfod o'r Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2024, bod cynghorwyr yn ystyried yr argymhelliad canlynol:-

Y dylai'r cyngor llawn drosglwyddo £1,400 o ganolfannau clyd i Goffi gyda Chyfeillion

PENDERFYNWYD derbyn yr argymhelliad uchod.

Argymhellir, er y cytunwyd yn wreiddiol gan y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu ar 24 Ionawr 2024 y dylid cynnal digwyddiad Cymraeg yng Nghanolfan Ostreme ar 1 Mawrth 2024, nad yw hyn bellach yn ymarferol oherwydd nad oedd gwirfoddolwyr ar gael ar y diwrnod hwnnw. Yn hytrach, bydd digwyddiad Cymraeg ar Ddydd Gŵyl Dewi yn cael ei gynnwys o fewn y cyfarfod Coffi gyda Chyfeillion a gynhelir y diwrnod cyn hynny, ar 29 Chwefror 2024.

PENDERFYNWYD derbyn yr argymhelliad uchod.

C02402-15 Cwestiynau i gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch digwyddiad pwrpasol ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi, amlinellodd y Cynghorydd Marshall gyfuniad o ffactorau, gan gynnwys diffyg gwirfoddolwyr, cyfyngiadau cyllidebol ac ymrwymadau ysgolion.

CYTUNWYD trafod opsiynau ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi 2025 mewn cyfarfod 'digwyddiadau'r dyfodol' penodedig ym mis Ebrill 2024.

C02402-16 Cwestiynau i gadeirydd y Pwyllgor Amgylcheddol

Mewn ymateb i gwestiynau, amlinellodd y Cynghorydd Nelson y canlynol: -

- Bydd lansiad Hawl i Holi Garddwyr Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn digwydd yn Neuadd Newton ddydd Mawrth 26 Mawrth 2024 rhwng 5.30pm a 7.30pm gyda lle i 60 aelod o'r cyhoedd. Ar ddiwedd y digwyddiad hwn, bydd Buzz and Bloom y Mwmbwls yn cael ei lansio.

- Cynhelir y digwyddiad Arwyr Gwyrdd nesaf ar 22 Chwefror 2024 rhwng 5.30pm a 7.30pm yn Yr Hwb, Parc Underhill.

C02402-17

Cwestiynau i gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfedd

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

C02402-18

Cwestiynau i gadeirydd y Pwyllgor Datblygu Cymunedol a Chymdeithasol

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.04pm.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 13 Ionawr 2024.

